

STRATEGAETH A CHYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL 2026/27



Uchelgais
Gogledd Cymru
Ambition
North Wales

Datganiad o Fwriad

Rhoi hyder i ddinasyddion gogledd Cymru a'r Cyd-bwyllgor Corfforedig ar amgylchedd reolaeth a threfniadau llywodraethu'r corff drwy adrodd yn annibynnol ac yn wrthrychol i'r Prif Swyddog Ariannol (Swyddog Adran 151) a'r Is-Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Mae archwilio mewnol yn cryfhau gallu'r corff i greu, amddiffyn, gwarchod a chynnal gwerth drwy ddarparu sicrwydd, cyngor, mewnwelediad a rhagwelediad annibynnol, gwrthrychol ac ar sail risg i'r Is Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a'r Rheolwyr.

STRATEGAETH ARCHWILIO MEWNOL A CHYNLLUN ARCHWILIO

2026-27

1. ARCHWILIO MEWNOL - EIN DATGANIAD O WELEDIGAETH

- 1.1 *"I fod yn biler dibynadwy mewn llywodraethu, rheoli risg, a rheolaeth, wedi'n cydnabod am ein rhagoriaeth wrth ddarparu gwasanaethau archwilio mewnol arloesol, craff a rhagweithiol. Ein nod yw gwella gallu'r Cyd-Bwyllgor Corfforedig i gyflawni ei amcanion strategol yn barhaus, diogelu adnoddau cyhoeddus, a meithrin tryloywder ac atebolrwydd. Drwy ein hymrwymiad i gynnal safonau uchel, cydymffurfio â safonau proffesiynol ac ymroddiad i welliant parhaus, rydym yn ymdrechu i fod yn gatalydd ar gyfer newid cadarnhaol ac yn sylfaen i uniondeb a llwyddiant y Cyd-bwyllgor Corfforedig."*

2. DATGANIAD O BWRPAS

- 2.1 Mae archwilio mewnol yn cryfhau gallu'r sefydliad i greu, diogelu a chynnal gwerth drwy ddarparu sicrwydd, cyngor, mewnwelediad a rhagwelediad annibynnol, gwrthrychol ac ar sail risg i'r bwrdd a'r rheolwyr.

Mae archwilio mewnol yn gwella'r sefydliad o ran:

- Cyflawni ei amcanion yn llwyddiannus.
- Prosesau llywodraethu, rheoli risg, a rheolaeth.
- Gwneud penderfyniadau a goruchwyllo.
- Enw da a hygyrdd gyda'i randdeiliaid.
- Y gallu i wasanaethu buddiannau'r cyhoedd.

3. ARCHWILIO MEWNOL A'R BUDD CYHOEDDUS

- 3.1 Mae archwilio mewnol yn chwarae rôl hanfodol wrth wella gallu sefydliad i wasanaethu budd cyhoeddus. Er mai prif swyddogaeth archwilio mewnol yw cryfhau prosesau llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth, mae ei effeithiau'n ymestyn y tu hwnt i'r sefydliad. Mae archwilio mewnol yn cyfrannu at sefydlogrwydd a chynaliadwydd cyffredinol sefydliad drwy ddarparu sicrwydd ar ei effeithlonrwydd gweithredol, dibynadwydd adrodd, cydymffurfiaeth â chyfreithiau a/neu reoliadau, diogelu asedau, a diwylliant moesegol.

4. STRATEGAETH A CHYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL

- 4.1 Wrth ddatblygu strategaeth a chynllun archwilio mewnol, rhoddwyd ystyriaeth i sut mae'r Cyd-bwyllgor Corfforedig yn:
- Sefydlu amcanion strategol ac yn gwneud penderfyniadau strategol a gweithredol.
 - Goruchwyllo rheoli risg a rheolaeth.
 - Hyrwyddo diwylliant moesegol.

- Darparu rheolaeth perfformiad ac atebolrwydd effeithiol.
 - Strwythuro ei swyddogaethau rheoli a gweithredu.
 - Cyfathrebu gwybodaeth risg a rheolaeth drwy gydol y sefydliad.
 - Cydlynu gweithgareddau a chyfathrebu ymhlith yr Is-Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a darparwyr gwasanaethau sicrwydd allanol, e.e. Archwilio Cymru.
- 4.2 Mae'r Strategaeth yn nodi sut y bydd y gwasanaeth yn cael ei gyflawni a'i ddatblygu ac mae'n cael ei ategu gan y Siarter Archwilio Mewnol sy'n cynnwys mandad swyddogaeth archwilio mewnol, safbwynt sefydliadol, perthnasoedd adrodd, awdurdod, cwmpas gwaith, mathau o wasanaethau a manylebau eraill
- 4.3 Mae Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang (GIAS), yn benodol Safon 9.2 Strategaeth Archwilio Mewnol yn nodi: ***"rhaid i'r prif weithredwr archwilio¹ ddatblygu a gweithredu strategaeth ar gyfer y swyddogaeth archwilio mewnol sy'n cefnogi amcanion strategol a llwyddiant y sefydliad."***
- 4.4 Mae Safon 9.4 Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang (GIAS) yn nodi ***"rhaid i'r prif weithredwr archwilio greu cynllun archwilio mewnol sy'n cefnogi cyflawni amcanion y sefydliad."***
- 4.5 Mae'r cynllun blynyddol sy'n seiliedig ar risg yn ystyried y gofyniad i gynhyrchu casgliad ac adroddiad blynyddol.
- 4.6 Wrth baratoi'r cynllun archwilio mewnol, rhoddwyd ystyriaeth i'r canlynol gan y Rheolwr Archwilio :
- Ymrwymadau sy'n ofynnol gan gyfreithiau neu reoliadau.
 - Ymrwymadau sy'n hanfodol i genhadaeth neu strategaeth y sefydliad.
 - Meysydd a gweithgareddau sydd â lefelau sylweddol o risg.
 - Ceisiadau cynghori ac ad hoc.
 - Yr amser a'r adnoddau sydd eu hangen ar gyfer pob ymgysylltiad posibl.
 - Manteision posibl pob ymgysylltiad i'r sefydliad, megis potensial yr ymgysylltiad i gyfrannu at wella prosesau llywodraethu, rheoli risg a rheoli'r sefydliad.
- 4.7 Er mwyn sicrhau ein bod yn adolygu'r pethau cywir, rhoddwyd ystyriaeth i Gynllun Twf Gogledd Cymru drwy adolygu'r adroddiad perfformiad a risg a gyflwynwyd i'r Is-Bwyllgor Lles Economaidd CBC y Gogledd ar 15 Mai 2026, trafodaethau gyda'r Prif Weithredwr, y Prif Swyddog Cyllid (Swyddog Adran 151) a Phennaeth Cynorthwyol Cyllid - Cynaliadwyedd a Datblygiadau (Cyngor Gwynedd).

¹Rheolwr Archwilio

- 4.8 Mae Rheol Gweithdrefn Ariannol 9.12.5 yn nodi: ***“Bydd y Prif Swyddog Cyllid yn cytuno ar y cynlluniau archwilio tymor canolig a blynyddol a baratowyd gan y Rheolwr Archwilio Mewnol sy'n ystyried nodweddion a risgiau cymharol y gweithgareddau dan sylw. Bydd y cynlluniau'n cael eu cymeradwyo gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.”***
- 4.9 Wrth baratoi'r cynllun archwilio, a ddisgrifir yn Atodiad A, rhoddwyd ystyriaeth i'r hyn y mae angen i'r Gwasanaeth ei wneud er mwyn cyflawni ei bwrpas.
- 4.10 Bydd cynllun Archwilio Mewnol 2026/2027 hefyd yn rhoi ystyriaeth briodol i'r canlynol:
- Bydd yn ymwybodol bob amser o'r posibilrwydd o dwyll neu lygredd.
 - Parhau i fynd i'r afael â grantiau penodol, yn enwedig lle mae amodau'r grant yn disgwyl adolygiad Archwilio Mewnol.
- 4.11 Bydd y cynllun archwilio yn parhau i fod yn hyblyg er mwyn adlewyrchu unrhyw faterion sy'n dod i'r amlwg neu newidiadau i risgiau a blaenoriaethau'r Cyd-bwyllgor Corfforedig. Bydd unrhyw ddiwygiadau neu addasiadau i'r Cynllun yn cael eu hadrodd i'r Is-Bwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn y dull arferol.
- 4.12 Er mwyn sicrhau hyblygrwydd, bydd Archwilio Mewnol yn defnyddio'r fethodoleg AGILE lle bo hynny'n bosibl. Amcanion cymhwyso'r egwyddorion Agile yw:
- Cynyddu ansawdd archwilio
 - Cylchoedd archwilio byr
 - Mwy o ryngweithio â'r sawl sy'n cael ei archwilio
 - Darparu mewnwelediadau
- Mae Agile yn darparu Cynllunio Archwilio Mewnol mwy hyblyg a deinamig o ganlyniad i fonitro risg parhaus.
- 4.13 Rhagwelir y bydd oddeutu 30 diwrnod o adnoddau archwilio ar gael i gwblhau cynllun archwilio 2026/27.

5. ADRODD

- 5.1 Bydd y Rheolwr Archwilio yn adrodd yn rheolaidd i'r Is-Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio:
- Ar ganlyniadau gwaith Archwilio Mewnol yn y cyfnod blaenorol.
 - Ar unrhyw wendidau rheolaeth sylweddol a ddarganfuwyd neu a archwiliwyd.
 - Ar unrhyw gamau gweithredu y cytunwyd arnynt na chawsant eu gweithredu o fewn yr amserlen y cytunwyd arni, lle byddai methiant i weithredu ar y camau hynny yn ymestyn gwendid rheoli sylweddol.
 - Ar gynnydd ar gwblhau'r Cynllun Archwilio Mewnol am y flwyddyn gyfredol.

6. CASGLIAD AC ADRODDIAD BLYNYDDOL

- 6.1 Mae gofynion Parth IV, Safon 11.3 o Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang 2024 (y "Safonau") a'r Cod Ymarfer ar gyfer Archwilio Mewnol yn cyfeirio at y gofyniad i'r prif weithredwr archwilio ffurfio barn sicrwydd blynyddol yn seiliedig ar y rhaglen flynyddol o waith archwilio yn ogystal â sicrwydd a gafwyd drwy ddulliau eraill.
- 6.2 Bydd y Rheolwr Archwilio yn paratoi Casgliad ac Adroddiad Blynyddol i gyfarfod cyntaf yr Is-Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol, yn unol â'r Safonau.
- 6.3 Bydd yr Adroddiad Blynyddol yn cynnwys yn bennaf:
- Barn flynyddol ar y fframwaith ar gyfer llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol.
 - Crynodeb o'r gwaith Archwilio Mewnol a gwblhawyd y mae'r casgliad yn deillio ohono.

7. DILYNIANT

- 7.1 Safon 15.2 o'r Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang: Cadarnhau Gofynion Gweithredu Argymhellion neu Gynlluniau Gweithredu yn nodi:
- "Rhaid i archwilwyr mewnol gadarnhau bod rheolwyr wedi gweithredu argymhellion archwilwyr mewnol neu gynlluniau gweithredu rheolwyr yn dilyn methodoleg sefydledig, sy'n cynnwys:***
- ***Holi am gynnydd ar y gweithrediad.***
 - ***Cynnal asesiadau dilynol gan ddefnyddio dull sy'n seiliedig ar risg.***
 - ***Diweddarau statws gweithredoedd rheolwyr mewn system olrhain."***
- 7.2 I'r perwyl hwn, nodir ym mharagraff 4.14 o'r Siarter Archwilio Mewnol ***"Ar ôl cyfnod priodol, bydd Archwilio Mewnol yn cynnal profion dilynol i sicrhau bod yr hyn y cytunwyd arno yn weithredol. Bydd canlyniadau'r gwaith dilynol yn cael eu hadrodd i'r Prif Swyddogion a'r Is-Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio."***

8. HYFFORDDIANT A DATBLYGIAD

- 8.1 Bydd y Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn parhau i fuddsoddi mewn hyfforddiant i sicrhau bod y tîm yn parhau â'u datblygiad proffesiynol ac yn cadw i fyny â risgiau a datblygiadau sy'n dod i'r amlwg.
- 8.2 Mae'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol hefyd wedi ymrwymo i hyfforddi a mentora ei staff, ac i ddarparu cyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol priodol. Adlewyrchir hyn yn y gyfran uchel o staff sydd â chymhwyster cyfrifeg proffesiynol yn ogystal â sawl aelod o'r tîm yn parhau â hyfforddiant proffesiynol yn ystod 2026/27.

- 8.3 Er mwyn cydymffurfio â'r cymhwyster CIPFA ac ACCA, mae'n ofynnol i Archwilwyr Mewnol sy'n dal y cymhwyster hwn ymgymryd ag isafswm oriau o ddatblygiad proffesiynol parhaus bob blwyddyn.

9. RHAGLEN SICRWYDD ANSAWDD A GWELLA

- 9.1 Mae'r rhaglen ansawdd a gwella yn cael ei sefydlu gan y Rheolwr Archwilio i werthuso a sicrhau bod y swyddogaeth archwilio mewnol yn cydymffurfio â'r Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang, yn cyflawni amcanion perfformiad ac yn dilyn gwelliant parhaus. Bydd y rhaglen yn cynnwys asesiadau mewnol ac allanol.

CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL 2026/2027

ARCHWILIAD	RHESYMEG	DYDDIAU
Cynllun Twf – Cronfa Ynni Glân, Cynllun Grant Diwydiant a Chynllun Grant Gwella Asedau'r Sector Cyhoeddus	Mae'r Cronfeydd hyn yn fyw a bydd trafodion ac hawliadau angen eu harchwilio erbyn chwarter 4.	11
Parth Buddsoddi	Gwiriad o drefniadau llywodraethu, trefniadau rheoli risgiau ac adolygiad o hawliadau a thrafodion.	12
Trefniadau Cynnal Gwiriadau Diwydrwydd Dyladwy	Mynediad i system y Llywodraeth wedi ei sefydlu a cais wedi ei dderbyn i gynnal adolygiad o'r broses arfaethedig.	3
<i>Eraill:</i>		
Rheolaeth a Phwyllgorau	Amser wedi ei neilltuo i swyddogion Archwilio Mewnol fynychu pwyllgorau ac i reoli gwaith / paratoi adroddiadau.	4
	Cyfanswm Dyddiau	30